Hawlio Iawndal

Mae'r canllaw hwn yn esbonio eich hawl i hawlio iawndal o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998.

Pryd allaf i hawlio iawndal o dan y Ddeddf?

Mae gennych hawl i hawlio iawndal oddi wrth gorff os ydych chi wedi dioddef niwed oherwydd ei fod wedi torri rhan o'r Ddeddf.

Fel arfer dim ond am unrhyw loes yr ydych chi wedi'i ddioddef y cewch chi hawlio, os ydych chi wedi dioddef niwed hefyd. Serch hynny, os torrodd y sefydliad y Ddeddf wrth ddefnyddio eich gwybodaeth at ddibenion newyddiadurol, artistig neu lenyddol, gallwch hawlio am loes yn unig.

Sut ydw i'n gwneud cais am iawndal?

Nid oes yn rhaid i chi wneud cais i'r llys os yw corff yn cytuno i dalu iawndal i chi. Os na allwch ddod i gytundeb gyda hwy, gallwch wneud cais i'r llys am iawndal yn unig neu gallwch gyfuno eich cais am iawndal gyda chamau i gywiro unrhyw doriad i'r Ddeddf.

Ni all y Comisiynydd Gwybodaeth ddyfarnu iawndal, hyd yn oed os yw'n ystyried bod y corff wedi torri'r Ddeddf. Byddai dal yn rhaid i chi ddwyn achos llys.

Sut ydw i'n mynd ati i ddwyn achos llys?

Bydd ein taflen, Dwyn achos llys, yn helpu chi i wneud hyn.

A fydd o fantais i mi yn y llys os byddaf wedi gofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth pa un a yw'r Ddeddf wedi'i thorri?

Mae'n bosibl. Gallwch ofyn i'r Comisiynydd asesu a yw'r corff wedi torri'r Ddeddf a bydd ef yn rhoi ei farn pa un a yw'n debygol neu'n annhebygol fod y corff wedi torri'r gyfraith. Gallwch roi copi o'r llythyr hwn i'r llys ynghyd â'r dystiolaeth sydd gennych i brofi'ch honiad. Serch hynny, bydd gan y llys eu safbwynt eu hunain ar y gyfraith ac mae'n bosibl na fydd y barnwr yn cytuno gyda barn y Comisiynydd.

Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno gofyn i'n llinell gymorth yn gyntaf i weld a yw'n werth gofyn i'r Comisiynydd asesu eich cwyn. Mae ffurflen gwynion i'w chael ar ein gwefan. Pa un a ydych chi'n cwyno wrth y Comisiynydd neu'n dwyn achos gerbron llys, bydd arnoch angen tystiolaeth i gefnogi'ch honiad.

Faint fydd y llys yn ei ddyfarnu i mi os bydd fy nghais yn llwyddiannus?

Nid oes canllawiau ynghylch lefelau'r iawndal ar gyfer hawlio o dan y Ddeddf. Barnwr y gwrandawiad fydd yn penderfynu a bydd yn ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys pa mor ddifrifol oedd y toriad, yr effaith a gafodd arnoch chi, yn arbennig wrth asesu'r loes yr ydych chi wedi'i dioddef. Hyd yn oed pan allwch ddangos yr union swm o arian yr ydych chi wedi'i golli o ganlyniad i dorri'r Ddeddf, penderfyniad y barnwr fydd dyfarnu arian ichi ac fe allai ostwng eich hawl neu ddyfarnu dim byd o gwbl.

Mae hefyd yn bwysig cofio hyd yn oed os bydd y llys yn dyfarnu iawndal i chi, fe allai'r corff wrthod, neu hyd yn oed fethu talu. Os digwydd hyn dylech ofn i'r llys beth ddylech chi ei wneud er mwyn gorfodi'r dyfarniad.

Cysylltiad defnyddiol

Cyngor ar Bopeth

www.citizensadvice.org.uk (Cymru a Lloegr)

www.citizenadvice.co.uk (Gogledd Iwerddon)

www.cas.org.uk (Yr Alban)

www.adviceguide.org.uk

neu eich swyddfa cyngor ar bopeth lleol

Gwasanaeth y Llysoedd

(Cymru a Lloegr)

www.scotcourts.gov.uk (Yr Alban)

www.courtsni.gov.uk (Gogledd Iwerddon)

Yr Adran Materion Cyfansoddiadol

www.dca.gov.uk

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

www.legalservices.gov.uk (Cymru a Lloegr)

www.slab.org.uk (Yr Alban)

www.nilsc.org.uk (Gogledd Iwerddon)

Rhagor o wybodaeth

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ar yr agwedd hon ar ddiogelu data neu unrhyw agwedd arall, cysylltwch â ni.

Ffôn: 08456 30 60 60
01625 54 5745

E-bost: defnyddiwch ein ffurflen ymholiadau ar-lein ar ein gwefan

Gwefan: www.ico.gov.uk

Fel arall cewch gysylltu â'n swyddfeydd rhanbarthol

Gogledd Iwerddon: 028 9051 1270 neu ni@ico.gsi.gov.uk

Yr Alban: 0131 301 5071 neu Scotland@ico.gsi.gov.uk

Cymru: 029 9051 1270 neu wales@ico.gsi.gov.uk

Promoting public access to official information
and protecting your personal information

Information Commissioner's Office